

Mick Giannasi

**Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
Chair of the Independent Maternity Services Oversight Panel**

Eich cyf/Your ref **IMSOP-SE-004-19**

Ein cyf/Our ref **IMSOP-SE-004-19**

Dr Dai Lloyd AC,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

21 Awst 2019

Annwyl Dr Lloyd,

Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth Cwm Taf Morgannwg

Diolch am eich llythyr diweddar ar ôl i'r Panel ymddangos o flaen y Pwyllgor Iechyd, Gofal cymdeithasol a Chwaraeon ar 17 Gorffennaf 2019.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor am gael gwybod sut y byddai 'digwyddiad difrifol' yn cael ei ddiffinio at ddibenion gwaith Adolygiad Clinigol y Panel ac, ar ôl ymgynghori â fy nghydweithwyr sy'n glinigwyr, rwyf yn falch o allu darparu'r wybodaeth a ganlyn.

Er bod y Panel yn annibynnol, mae'n bwysig bod gwaith y Panel yn cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cyffredinol Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, y diffiniad o 'ddigwyddiad difrifol' a ddefnyddir yw'r diffiniad a ddarperir ym mharagraff 9.2 o'r canllawiau '[Gweithio i Wella](#)'. Mae'r canllawiau hyn yn nodi fel a ganlyn:-

Caiff digwyddiad difrifol ei ddiffinio fel digwyddiad a ddigwyddodd yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG (gan gynnwys gofal iechyd yn y gymuned), a arweiniodd at un neu ragor o'r canlynol:-

- *marwolaeth annisgwyl neu farwolaeth y gellid fod wedi'i hosgoi neu niwed difrifol i un neu ragor o gleifion, staff neu aelodau o'r cyhoedd;*
- *digwyddiad na ddylai byth ddigwydd (caiff pob digwyddiad na ddylai byth ddigwydd ei ddiffinio fel diffiniad difrifol er nad yw pob digwyddiad felly o reidrydd yn arwain at niwed difrifol neu farwolaeth);*
- *sefyllfa sy'n atal, neu'n bygwth atal, sefydliad rhag gallu parhau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys achosion o golli data, difrod i eiddo neu ddigwyddiadau mewn rhaglenni poblogaethau fel sgrinio ac imiweiddio lle gallai'r niwed ymestyn i boblogaeth fawr;*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
oversightpanel.maternity@gov.wales
paneltrosolwg.mamolaeth@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- *honiadau, neu achosion, o gam-drin corfforol ac ymosodiad neu gam-drin rhywiol a/neu o golli hyder yn y gwasanaeth, sylw anffatriol yn y cyfryngau neu bryder i'r cyhoedd ynghylch gofal iechyd neu sefydliad.*

Fel y gwelwch, mae'r diffiniad yn eithaf eang. Fodd bynnag, elfen gyntaf ac ail elfen y diffiniad yw'r rhai mwyaf perthnasol i waith y Panel.

Er mwyn ehangu natur benodol y diffiniad i'w ddefnyddio ym maes gofal mamolaeth, mae Arweinwyr Bydwreigiaeth ac Obstetreg y Panel yn datblygu cyfres o feini prawf cynhwysiant mwy penodol. Defnyddir y rhain i gwmpasu cam cyntaf rhaglen yr adolygiad clinigol a byddant yn cynnwys achosion 2016-2018 a nodir yn adroddiad y Colegau Brenhinol.

Bydd y meini prawf cynhwysiant yn rhoi ystyriaeth i raglenni gwella ansawdd cenedlaethol sydd wedi'u llunio i leihau'r achosion o ganlyniadau gwael i famau a babanod. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen [Each Baby Counts](#) a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ac [MBRRACE](#). Mae hon yn rhaglen cadw gwylidwriaeth genedlaethol a reolir gan Adran Iechyd y Cyhoedd Nuffield ym Mhrifysgol Rhydychen.

Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf cynhwysiant yn destun ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd eto oherwydd, yn rhannol, yr angen i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r menywod a'r teuluoedd y mae proses yr adolygiad clinigol yn effeithio arnynt.

Rhagwelir y bydd y meini prawf yn cael eu hawdurdodi'n fuan ac y byddant yn cael eu cyhoeddi yn Adroddiad Chwarterol Cyntaf y Panel gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddaf, wrth gwrs, yn ysgrifennu atoch eto pan fydd yr wybodaeth ar gael.

Gobeithio bod hynny o gymorth. Yn y cyfamser, os oes unrhyw beth arall y gallaf ei wneud i helpu i lywio trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Mick Giannasi
Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
oversightpanel.maternity@gov.wales
paneltrosolwg.mamolaeth@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.